



Adroddiad Adolygiad Ymarfer Plant Cryno WRECSAM 2020/1

Amlinelliad byr o'r amgylchiadau a arweiniodd at yr Adolygiad

Dylid cynnwys:

*Y cyd-destun cyfreithiol a geir mewn canllawiau o ran pa adolygiad sy'n cael ei gynnal

* Amgylchiadau a arweiniodd at yr Adolygiad

* Y cyfnod dan sylw a pham

* Amserlen gryno o'r digwyddiadau allweddol i'w hychwanegu fel atodiad

Cafodd adolygiad cryno ei gomisiynu gan Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru ar argymhelliad yr Is-grŵp Adolygiad Ymarfer Plant yn unol â'r Canllawiau ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant Amlasiantaeth.

Mae'r meini prawf ar gyfer yr adolygiad hwn yn cael eu bodloni o dan Reoliadau (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) Byrddau Diogelu 2015 sydd o fewn ardal y Bwrdd, yn gam-drin neu esgeuluso plentyn yn hysbys neu'n cael ei amau ei bod y plentyn wedi:

- marw; neu
- wedi cael anaf sy'n bygwth bywyd; neu
- wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd neu ddatblygiad;
- a phan nad oedd y plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant, nac yn blentyn a oedd wedi derbyn gofal ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato uchod.

Yn unol â Deddf Plant 1989 mae plentyn yn unrhyw un hyd at ei ben-blwydd yn ddeunaw (18) oed.

Y plentyn wedi'i ganfod ddim yn ymateb yng nghartref y teulu. Wedi galw'r Gwasanaeth Ambiwlans, dechreuwyd Uwch Ddadebriad Cynnal Bywyd a pharhawyd nes i benderfyniad gael ei wneud gan yr Ymgynghorydd ar yr Hofrennydd Gwasanaeth Adfer a Throsglwyddo y Gwasanaethau Meddygol Brys i roi'r gorau i ymdrechion dadebru. Roedd Ymchwiliad dilynol gan y Crwner wedi cofnodi marwolaeth drwy ddamwain.

Yn dilyn marwolaeth annisgwyl y plentyn, roedd Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl yn ystod Plentynodod 2018 (PRUDiC) wedi dechrau. Nod y PRUDiC yw sicrhau bod yr ymateb yn ddiogel, cyson ac yn sensitif i'r rhai dan sylw,

a bod unffurfedd ar draws Cymru yn yr ymateb amlasiantaeth i farwolaethau annisgwyl mewn plentyndod.

Roedd y broses PRUDiC yn nodi bod y plentyn wedi bod yn cwestiynu ei ryw neu rhyw ac wedi dangos arwyddion ei fod yn hunan-niweidio yn y gorffennol. Mae yna hefyd arwyddion wedi bod o fwlio gan gyfoedion. Rhannwyd gwybodaeth bod y plentyn wedi Derbyn Gofal cyn cael ei fabwysiadu a bod gan y plentyn gyswllt heb ei drefnu gyda'u teulu biolegol. Yn unol â'r broses ac ar ôl ystyried y wybodaeth, cytunwyd i gyfeirio'r wybodaeth a'r canfyddiadau ar gyfer ystyriaeth ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant.

Roedd yr amserlen ar gyfer yr adolygiad wedi'i ymestyn i fod yn 19 mis cyn marwolaeth y plentyn gan y byddai hyn yn mynd â'r adolygiad yn ôl i'r adroddiadau cyntaf a adroddwyd o'r plentyn yn hunan-niweidio. Roedd cyfnod yr adolygiad o Ionawr 2019 i Hydref 2020.

Hefyd dylid nodi bod y cyfnod rhwng Mawrth 2020 a Hydref 2020 o fewn cyfyngiadau cyfnod clo Covid-19.

Ymarfer a Dysgu Sefydliadol

Nodi bob pwylt dysgu unigol yn sgil yr achos hwn (gan gynnwys amlygu ymarfer effeithiol) ac amlinelliad bras o'r amgylchiadau perthnasol

Nodwyd gan elwa o'r profiad bod y plentyn yn profi sawl digwyddiad heriol mewn bywyd sydd neu sydd heb achosi pryder neu anhapusrwydd. Mae'n bosibl nad oedd unrhyw un yn deall anghenion y plentyn yn llwyr ac mae'r dysgu yn bennaf i ystyried pa un a fyddai rhywbeth wedi gallu cael ei wneud yn wahanol i ddeall yr anghenion hynny'n well.

Y prif feysydd ffocws yw:

- Anghenion Plentyn sy'n Derbyn Gofal ac wedi cael ei fabwysiadu.
- Anghenion plentyn sy'n hunan-niweidio ac yn mynegi meddyliau yn ymwneud â hunanladdiad.
- Anghenion plentyn sy'n cwestiynu eu rhywedd.
- Anghenion plentyn sydd o bosibl yn cael ei fwlio.

Anghenion Plentyn sy'n Derbyn Gofal ac wedi cael ei fabwysiadu.

Roedd y plentyn wedi'i fagu'n wreiddiol gan ei rieni biolegol ac wedi cael Profiadau Plentyndod Difrifol. Roedd y plentyn wedi derbyn llety o dan drefniadau gwirfoddol i ddechrau, nes iddo dderbyn gofal o dan Orchymyn Gofal. Roedd y plentyn wedi'i leoli gyda gofalwyr maeth yn 3 oed i ddechrau, o fewn ardal yr Awdurdod Lleol yn agos at gartref y teulu biolegol. Roedd cyswllt gyda'r teulu biolegol wedi'i hybu ar yr adeg hon ac roedd y lleoliad yn ymddangos yn bodloni anghenion y plentyn. Roedd y plentyn yn manteisio ar leoliad sefydlog ac ond wedi symud unwaith ar ôl cael ei symud oddi wrth y teulu biolegol. Pan oedd y plentyn yn 5 oed, roedd y cynllun gofal i'r plentyn wedi newid i fabwysiadu ac roedd y gofalwyr maeth presennol wedi mynegi eu dymuniad i gael eu hystyried fel rhieni sy'n mabwysiadu'r plentyn.

Roeddent wedi cyflwyno eu cais i gael eu hasesu ar gyfer cymeradwyaeth. Yn unol â'r Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002, roedd y darpar fabwysiadwyr wedi mynychu cwrs paratoi ac roeddent yn ddarostyngedig i asesiad mabwysiadu llawn ac roedd eu cais wedi'i gyflwyno i Banel Mabwysiadu Wrecsam a Fflint ac roedd y cofnodion yn nodi bod "argymhelliad cadarnhaol wedi'i gadarnhau gan y Sawl sy'n Gwneud Penderfyniadau yn yr Asiantaeth."

Hefyd, yn unol â'r Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002, roedd y sawl arfaethedig i'w baru gyda'r plentyn wedi'i gyflwyno i Banel Mabwysiadu Wrecsam/Sir y Fflint ac mae'r nodiadau yn cofnodi "argymhelliad cadarnhaol fel y cadarnhawyd gan y Sawl sy'n Gwneud Penderfyniadau o'r Asiantaeth."

Roedd agosrwydd y teulu biolegol wedi'i asesu o ran risg ar y pryd ac am ychydig o flynyddoedd nid oedd yr agosrwydd wedi ymddangos yn broblem. Roedd yn anffodus bod yr agosrwydd hwn wedi dod yn broblem ar ôl ychydig flynyddoedd, fodd bynnag, teimlwyd bod y penderfyniad i'r plentyn aros mewn cartref sefydlog er budd gorau'r plentyn.

Adeg y mabwysiadu, roedd y Gweithiwr Cymdeithasol Mabwysiadu wedi cwblhau Cynllun Cefnogi Mabwysiadu yn unol â Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdod Lleol) (Cymru) 2005. Mae'r cynllun yn nodi'r gwaith i'w wneud gyda'r plant wrth i'r cynllun mabwysiadu ddatblygu a'r gwaith i'w wneud gyda'r tad biolegol a'r taid a naid ar ochr y tad ynglŷn â newidiadau i'r trefniadau cyswllt yn dilyn y gorchymyn mabwysiadu. Mae'r adroddiad a gyflwynwyd i'r llys yn ystod y cais mabwysiadu (Atodiad A) yn nodi

"Y gefnogaeth gadarnhaol ar gyfer lleoli'r plentyn gyda'r rhieni sy'n mabwysiadu yn seiliedig ar gynnydd a wnaed gan y plentyn ers cael ei leoli gyda'r cwpl a'r cysylltiadau cryf a wnaed gan y plentyn gyda nhw. Sylwyd bod y plentyn yn blentyn hyderus ac roedd yn aml wedi mynegi dymuniadau wrth y gweithiwr cymdeithasol i aros gyda'r cwpl. Roedd hefyd yn cael ei gydnabod bod y gofalwyr maeth wedi dod yn agos at y plentyn ac yn teimlo y byddent yn gallu rhoi'r diogelwch oedd y plentyn ei angen, tra nad oeddent ofn mynd i'r afael â'r angen i barhau rhyw lefel o gyswllt gyda'r teulu biolegol. Roedd yn cael ei gydnabod bod y teulu biolegol yn ymwybodol o'r lleoliad ble'r oedd y plentyn wedi'i leoli ac ni wnaethant erioed dorri'r trefniadau a theimlwyd nad oedd hyn yn fygythiad i'r lleoliad."

Roedd y plentyn yn 6 oed adeg gwneud y gorchymyn mabwysiadu. Adeg y cynllunio parhaol, roedd yna gydnabyddiaeth bod yna gyfle i'r plentyn gael ei leoli mewn lleoliad parhaol gyda rhieni oedd yn dymuno gofalu am y plentyn a ble'r oedd y plentyn yn dymuno bod. Nid oedd yna ystyriaeth ar y pryd i symud i leoliad gwahanol, y cwestiwn a ystyriwyd oedd pa un a oedd angen Gorchymyn Mabwysiadu neu Orchymyn Gofal ar gyfer anghenion y plentyn. Roedd gan y rhieni berthynas dda gyda'r Gweithiwr Cymdeithasol Mabwysiadu oedd yn ymgymryd â'u hasesiad mabwysiadu ac roedd y cynllun cefnogi mabwysiadu yn nodi y byddai'r Gweithiwr Cymdeithasol Mabwysiadu a'r Gweithiwr Cymdeithasol Maethu ar gael fel

pwynt cyswllt hirdymor am “gyngor, gwybodaeth ac atgyfeiriad fel bo’r angen.” Pan oedd materion yn codi gyda’r plentyn yn hunan-niweidio, yn mynegi meddyliau hunanladdiad, cwestiynu rhyw a chyswllt gyda’r teulu biolegol, dewisodd y rhieni i gysylltu â’r Gweithiwr Cymdeithasol Mabwysiadu. Mae Rheoliad 16 Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2005 yn ei gwneud yn ofynnol i’r Awdurdod Lleol adolygu’r Cynllun Cefnogi Mabwysiadu os ydynt yn ymwybodol o newidiadau yn amgylchiadau’r plentyn a’u bod yn meddwl bod angen adolygiad.

Roedd y Gweithiwr Cymdeithasol Mabwysiadu yn ymateb bob tro, yn siarad gyda’r rhieni ac yn rhoi cyngor. Gan fod y sefyllfa yn ymddangos o dan reolaeth y rhieni, teimlwyd nad oedd angen unrhyw ymyrraeth bellach.

Nid oedd y Gweithiwr Cymdeithasol Mabwysiadu ar y pryd wedi adolygu’r Cynllun Cefnogi Mabwysiadu gan nad oedd yn teimlo ei fod yn angenrheidiol. Roedd y Gweithiwr Cymdeithasol Mabwysiadu wedi’i hysbysu gan y rhieni fod y plentyn wedi’i weld gan y Meddyg Teulu (MT) a’r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS).

Roedd y Gweithiwr Cymdeithasol Mabwysiadu yn nodi ei bod yn teimlo rhyddhad i glywed bod y plentyn wedi’i weld gan y MT a CAMHS i siarad am faterion cwestiynu rhyw gan ei bod yn teimlo bod hyn y tu hwnt i’w dealltwriaeth a’i phrofiad. Yn dilyn y Gorchymyn Mabwysiadu, roedd y rhieni wedi parhau fel gofalwyr maeth am rai blynyddoedd a rhoi’r gorau i fod yn ofalwyr maeth yn 2019. Roedd y cyswllt gyda’r gweithiwr cymdeithasol maethu wedi lleihau dros y blynyddoedd a gwnaed ymdrechion i gysylltu â’r gofalwyr maeth i drafod eu hymddiswyddiad gan nad oeddent yn cynnig lleoliadau maeth mwyach. Mae’n aneglur pa un a oeddent yn rhan o unrhyw adolygiad blynyddol gofalwyr maeth a pha un a oedd llais plant wedi’i ystyried fel aelod o’r aelwyd. Pan wnaeth y gwasanaeth maethu gysylltu â’r gofalwyr ynglŷn â’r ymddiswyddiad, cawsant eu hysbysu gan y rhieni am y plentyn yn hunan-niweidio a chwestiynu rhywedd a hysbyswyd bod y plentyn wedi bod yn gweld y Meddyg Teulu ac roedd ar restr aros ar gyfer CAMHS. Gan fod y sefyllfa yn ymddangos o dan reolaeth y rhieni, teimlwyd nad oedd angen unrhyw ymyrraeth bellach. Nid oedd unrhyw gyswllt rhwng y Gweithiwr Cymdeithasol Mabwysiadu a’r Gweithiwr Cymdeithasol Maethu. Roedd yn ymddangos nad oedd yna fandad iddynt gysylltu â’i gilydd i rannu gwybodaeth ac maent yn cadw cofnodion ar systemau electronig ar wahân. Ymddengys fod gan y ddau weithiwr cymdeithasol wybodaeth wahanol am amgylchiadau’r plentyn ac y byddai’n fuddiol os byddai’r wybodaeth yn cael ei rhannu o fewn y ddau wasanaeth. Hefyd, roedd yn ymddangos fod gan y plentyn frawd neu chwaer iau a phan oedd y brawd neu chwaer iau yn destun gweithdrefnau gofal, gwnaed penderfyniad gan weithiwr cymdeithasol/rheolwr tîm gofal plant y brawd neu chwaer a’r Swyddog Adolygu Diogelwch Annibynnol i gysylltu â’r rhieni i weld pa un a allent hefyd ystyried lleoli’r brawd neu chwaer iau ochr yn ochr â’r plentyn. Mae’n ymddangos fod y rhieni a’r plentyn wedi trafod hyn a gwnaed penderfyniad i beidio cynnig cartref i’r brawd neu chwaer iau. Nid oedd y penderfyniad i gysylltu â’r rhieni ar gyfer y brawd neu chwaer iau wedi’i drafod gyda’r Gweithiwr Cymdeithasol Maethu, a fyddai o bosibl wedi

lleisio eu gwrthwynebiad os byddent wedi cysylltu â nhw. Hefyd, ymddengys bod trafodaethau am y cyswllt posibl rhwng y plentyn a'r brawd neu chwaer ieuengaf wedi digwydd. Roedd yn ymddangos fod y plentyn yn awyddus i hyn ddigwydd, fodd bynnag yn dilyn cyswllt heb ei drefnu rhwng y plentyn a'r fam fiolegol, penderfynwyd i beidio symud ymlaen gyda chyswllt â'r brawd neu chwaer. Mae'n aneglur ac nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i chofnodi i nodi sut wnaeth hyn dderbyn sylw a pha un a welwyd y plentyn i drafod y penderfyniad i beidio bwrw ymlaen â chysylltiad neu pa un a oedd y rhieni wedi siarad gyda'r plentyn am hyn.

Pwynt dysgu

- Mae'r Awdurdod Lleol wedi nodi bod polisïau a gweithdrefnau mabwysiadu lleol ar y pryd wedi eu cyfyngu ac mae holl bolisïau mabwysiadu ar draws Cymru yn y broses o gael eu casglu o dan y Polisïau Mabwysiadu Cymru Gyfan Gwasanaeth Mabwysiadu Cymru Gyfan.
- Mae holl asiantaethau angen bod yn ymwybodol bod plant sydd wedi neu yn derbyn gofal yn cael eu maethu neu eu mabwysiadu yn debyg o fod ag anghenion ychwanegol gan eu bod yn debyg o fod wedi dioddef Profiad Plentynod Difrifol cyn Derbyn Gofal. Mae NAS wedi datblygu Canllawiau Arfer Da ar Geisiadau Gofal Maeth a gyhoeddir ym mis Hydref/Tachwedd 2022.
- Mae'r teulu wedi bod mewn cysylltiad â'r Gweithiwr Cymdeithasol Mabwysiadu, y Gweithiwr Cymdeithasol Maethu, y Gweithiwr Cymdeithasol Gofal Plant brodyr neu chwiorydd iau, Swyddog Adolygu Diogelu Annibynnol brawd neu chwaer iau. Roedd yr holl weithwyr cymdeithasol a'u rheolwyr yn fodlon bod anghenion y plentyn yn derbyn sylw ac nid oedd unrhyw un yn teimlo eu bod angen adrodd am unrhyw bryderon ynglŷn â lles y plentyn.
- Nodwyd ar y pryd bod diffyg arweiniad ynglŷn â chysylltu â mabwysiadwyr am gyswllt posibl rhwng plant a fabwysiadwyd a'u brodyr neu chwiorydd ac yn arbennig ynglŷn â chynnwys y plentyn yn y broses gwneud penderfyniadau, yn arbennig pan nad yw cyswllt yn digwydd. Mae Canllawiau Arfer Da ar Gysylltu gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol nawr yn bodoli i roi arweiniad ar hyn.
- Ni fu unrhyw ystyriaeth i frodyr na chwiorydd eraill o fewn y Cynllun Cefnogi Mabwysiadu ac nid oedd y brawd neu chwaer wedi'i eni adeg llunio'r cynllun, fodd bynnag, mae Canllawiau Arfer Da Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ar Gefnogaeth Mabwysiadu yn nodi'r angen i ragweld newidiadau posibl mewn amgylchiadau. Mae'n ymddangos bod yna ddiffyg arweiniad cyson am y protocol ynglŷn ag ymgynghori gyda phartion allweddol ynglŷn â chysylltu â mabwysiadwyr am leoliadau posibl brodyr a chwiorydd ac yn arbennig am gynnwys y plentyn yn y broses gwneud penderfyniadau.
- Nid oedd yna system electronig ar waith i hwyluso cyfathrebu rhwng yr ymarferwyr ac nid oedd unrhyw dystiolaeth i gefnogi cyfathrebu ar lafar parhaus rhwng yr ymarferwyr.
- Pan wnaeth y rhieni gysylltu â'r Gweithiwr Cymdeithasol Mabwysiadu am gyngor, byddai yna ofyniad i'r Rheoliadau Gwasanaeth Cefnogi Mabwysiadu

(Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2005 ystyried yr angen i adolygu'r Cynllun Cefnogi Mabwysiadu.

Bydd yr adolygiad naill ai'n:

- a) cadarnhau bod y cynllun presennol yn parhau'n addas i bwrpas a nodir a chytunir ar ddyddiad adolygu pellach ar y cynllun;
- b) diwygio'r cynllun presennol, ond heb yr angen am asesiad llawn a nodir a chytunir ar ddyddiad adolygu pellach ar y cynllun; neu
- c) penderfynu bod angen asesiad llawn, yn yr achos hynny bydd y cynllun yn cael ei ddiwygio yn dilyn yr asesiad hwnnw, a chytuno a nodi dyddiad adolygu pellach ar y cynllun.

Os teimlir bod materion y plentyn yn ehangach na'r rhai oedd yn codi o'r materion mabwysiadu, yna gellir hefyd rhoi ystyriaeth i'r angen i'r budd posibl o **gynggori'r rhieni i ofyn am asesiad** o anghenion y plentyn o dan Adran 21 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Dyletswydd Adran 21 i asesu angen plentyn am ofal a chefnogaeth

Ble mae'n ymddangos i awdurdod lleol y bydd plentyn angen gofal a chefnogaeth yn ogystal â, neu yn lle'r gofal a chefnogaeth a ddarperir gan deulu'r plentyn, mae'n rhaid i'r awdurdod asesu:

- a) ble mae'r plentyn angen gofal a chefnogaeth o'r math hwnnw a
- b) os yw'r plentyn, beth yw'r anghenion hynny.

(4) Wrth gynnal asesiad o anghenion o dan yr adran hon, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol -

- a) asesu anghenion datblygu'r plentyn,
- b) ceisio nodi'r deilliannau mae'r -
 - I. plentyn yn dymuno eu cyflawni, i'r graddau ei fod yn briodol i ystyried oed a dealltwriaeth y plentyn,
 - II. yr unigolyn â chyfrifoldeb fel rhiant y plentyn yn dymuno cyflawni mewn perthynas â'r plentyn, i'r graddau ei fod yn briodol ystyried yr angen i hybu lles y plentyn
- c) asesu pa un, ac os felly, i ba raddau mae -
 - I. gofal a chymorth
 - II. gwasanaethau ataliol, neu
 - III. gwybodaeth, cyngor neu gymorth yn gallu cyfrannu at gyflawni'r deilliannau hynny neu fel arall yn bodloni anghenion a nodwyd gan yr asesiad
- d) asesu pa un, ac os felly, i ba raddau, y gallai materion eraill gyfrannu at gyflawni'r deilliannau hynny neu fel arall gyflawni'r anghenion hynny, a

e) chymryd i ystyriaeth unrhyw amgylchiadau eraill sy'n effeithio ar les y plentyn.

- Roedd y Gweithiwr Cymdeithasol Mabwysiadu yn darparu cefnogaeth i'r teulu drwy ymweld a chynnig cyngor fel y nodwyd yn y Cynllun Cefnogi Mabwysiadu, a gytunwyd fel rhan o'r broses fabwysiadu.
- Ar y pryd, nid oedd y Gweithiwr Cymdeithasol Mabwysiadu yn credu bod y Cynllun Cefnogi Mabwysiadu angen ei adolygu gan fod y gofyniad i ddarparu gwasanaethau therapiwtig i'r Plentyn (Rheoliad 3 (d) Rheoliadau Gwasanaethau Cefnogi Mabwysiadu (ALI) (Cymru) 2005 yn cael ei fodloni drwy atgyfeirio i CAMHS. Nid oedd y Gweithiwr Cymdeithasol Mabwysiadu, yn seiliedig ar y wybodaeth a rannwyd gyda hi yn nodi bod yna unrhyw angen i awgrymu i'r rhieni y byddai asesiad o dan Adran 21 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cael ei gynghori.
- Byddai Asesiad Cymorth Mabwysiadu o dan Reoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (ALI) Cymru 2005 neu asesiad o dan Adran 21 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi cael cyfle i naill ai Weithiwr Cymdeithasol Mabwysiadu neu weithiwr cymdeithasol yr Awdurdod Lleol fel rhan o'u hasesiad i gysylltu a'r ysgol a'r nyrs ysgol a byddai hyn wedi rhybuddio'r ysgol am faterion mewn rhannau o fywyd y plentyn nad oeddent yn ymwybodol ohonynt. Byddai'r asesiad hefyd wedi gallu egluro pa wasanaethau yr oedd y plentyn wedi'i gyfeirio atynt a phryd.
- Hefyd, nodwyd y byddai'r Adolygiad Cynllun Cymorth Mabwysiadu Plant neu asesiad Adran 21 wedi gallu nodi effaith cyswllt heb ei drefnu gyda'r rhieni biolegol ar y plentyn ac wedi gallu codi'r angen am gamau ataliol i'w rhoi ar waith gan y rhieni i ddiogelu'r plentyn, e.e. gorchymyn peidio ag ymyrryd.
- Nid yw'n eglur o'r cofnodion pwy os oedd unrhyw un o'r gweithwyr wedi gallu siarad gyda'r plentyn ynglŷn ag unrhyw un o'r materion uchod neu a welwyd y plentyn neu a welwyd y plentyn ar ei ben ei hun. Nid yw'n ymddangos bod yna unrhyw gofnodion yn nodi pa un a wnaed cais i'r rhieni i siarad gyda'r plentyn a pha un a oedd y ceisiadau hyn wedi eu gwrthod.

Os byddai adolygiad o Gynllun Cymorth Mabwysiadu wedi'i gynnal o dan y Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (ALI) Cymru 2005 neu asesiad wedi'i gynnal o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 byddai'r ddau asesiad angen i'r Awdurdod Lleol gynnwys y plentyn yn uniongyrchol.

Anghenion plentyn sy'n hunan-niweidio ac yn mynegi meddyliau yn ymwneud â hunanladdiad.

Roedd yna adegau pan oedd y plentyn wedi hysbysu'r ysgol am ymddygiad hunan-niweidio a meddwl am hunanladdiad. Roedd rhiant plentyn arall hefyd wedi cysylltu â'r ysgol i fynegi pryder am y plentyn yn hunan-niweidio. Roedd y plentyn hefyd wedi cysylltu â staff yr ysgol i siarad am deimladau ynglŷn â chwestiynu rhyw. Roedd staff yr ysgol wedi ymateb i'r plentyn bobl tro a siarad gyda'r rhieni oedd wedi ymddangos yn gefnogol. Roedd y rhieni wedi nodi y byddent yn cefnogi'r plentyn drwy weld y meddyg teulu a byddent yn trefnu atgyfeiriad CAMHS.

Roedd llawer o asiantaethau/gweithwyr wedi derbyn sicrwydd bod y plentyn yn derbyn y gwasanaethau cywir a bu sawl cyfeiriad at y plentyn yn derbyn cwnsela ac wedi gweld CAMHS. Roedd hyn yn ystod amser pan nad oedd y plentyn wedi'i gyfeirio i wasanaeth Cwnsela na CAMHS. Cafodd ei nodi y byddai'r llwybr a gymeradwywyd ar gyfer CAMHS angen i'r ysgol, Meddyg Teulu neu weithiwr proffesiynol arall wneud yr atgyfeiriad yn hytrach na'r rhiant. Gallai hyn fod wedi arwain at ymateb cynt.

Roedd yr ysgol yn ymddangos yn fodlon eu bod wedi ymateb i'r plentyn yn briodol.

Fodd bynnag, nid oedd yr ysgol yn ymwybodol bod yna bethau yn mynd ymlaen ym mywyd y plentyn mewn perthynas â chysylltiad â'r teulu biolegol na'r ystyriaeth a roddwyd i fabwysiadu brawd neu chwaer iau.

Cafodd y plentyn ei gyfeirio at y nyrs ysgol ac yn seiliedig ar pa wybodaeth oedd gan y nyrs ysgol ar y pryd, roedd wedi cynghori'r ysgol y dylai'r plentyn gael ei gyfeirio at CAMHS. Nid oes yna lawer o wybodaeth ynglŷn â phryd y derbyniwyd yr atgyfeiriad gan y nyrs ysgol ac nid oes unrhyw gofnod ysgrifenedig o gamau'r nyrs ysgol adeg yr atgyfeiriad nac wedyn.

Nid oedd y nyrs ysgol wedi cyfarfod y plentyn.

Ar ôl derbyn yr atgyfeiriad, roedd y nyrs ysgol yn cael anhawster yn cadarnhau cyfenw cywir y plentyn a dod o hyd i gofnodion cywir y plentyn. Gan nad oedd y cofnodion ar gael ar y pryd, nid oedd y nyrs ysgol yn ymwybodol fod y plentyn wedi'i fabwysiadu ac nid oedd yn ymwybodol o'r materion gyda'r rhieni biolegol a'r cyswllt gyda brawd neu chwaer. Nodwyd y byddai'r nyrs ysgol wedi gallu bod yn fwy ymwybodol o amgylchiadau'r plentyn os byddai yna drosglwyddiad achos cymhleth rhwng y gwasanaeth nyrs ysgol gynradd ac uwchradd, yn arbennig gan nad oedd y plentyn o un o'r ysgolion bwydo arferol i'r ysgol hon.

Mae cofnodion yn nodi bod y nyrs ysgol oedd yn ymwneud adeg y mabwysiadu yn ymwybodol o'r mabwysiadu. Fodd bynnag, roedd yna nifer o nyrsys ysgol wedi eu dyrannu dros y blynyddoedd ac roedd yn aneglur ble'r oedd y wybodaeth wedi'i cholli yn ystod y trosglwyddo rhwng y nyrsys ysgol.

Mae cofnodion hefyd yn nodi bod y Nyrs Plant sy'n Derbyn Gofal wedi cynnal rhai asesiadau ar gyfer y plentyn ac nad oedd yn cyfrannu mwyach pan gafodd y plentyn ei fabwysiadu. Ar y pryd nid oedd yna broses ar gyfer trosglwyddo rhwng y Nyrs Plant sy'n Derbyn Gofal a'r Nyrs Ysgol.

Yn ystod yr adolygiad, sefydlwyd bod y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi hysbysu'r gwasanaeth iechyd bod y plentyn wedi'i fabwysiadu. Cafodd yr hysbysiad hwn ei ganfod mewn "Ffeil Iechyd Arbennig" a gynhaliwyd gan y Pediatregydd Cymunedol Ymgynghorol. Mae'r ffeil hon yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â chyfraniad y Gwasanaethau Cymdeithasol, materion diogelu a gweithdrefnau llyso. Nid yw'r "Ffeil

lechyd Arbennig” hon bob amser yn adlewyrchu’r wybodaeth a gynhelir gan y nyrs ysgol. Nid oedd yna unrhyw beth ar ffeil nyrs ysgol y plentyn i nodi bod yna “Ffeil lechyd Arbennig” wedi’i chynnal ar y plentyn.

Pwynt dysgu

- Nid oedd yr ysgol yn dilyn y Llwybr Hunan-niweidio ffurfiol fel y disgwylir o fewn y broses Llwybr Hunan-niweidio.
- Os byddai’r ysgol wedi dilyn y Llwybr hunan-niweidio a chwblhau’r asesiad risg a thrafod gydag Un Pwynt Mynediad CAMHS yna byddai hyn wedi gallu arwain at y rhieni yn cael eu cyngori am werth cysylltu â’r Awdurdod Lleol am gefnogaeth.
- Dylai hysbysiad mabwysiadu fod wedi’i gopïo ar ffeil y nyrs ysgol.
- Mae’r adolygiad yn amlygu’r cyfyngiadau o gofnodi ar bapur o fewn BIPBC ac y gall absenoldeb system TG clinigol effeithio ar ble mae plant a phobl ifanc yn cael mynediad at amryw o wasanaethau yn ystod eu siwrnai iechyd.
- Roedd yr atgyfeiriad at y nyrs ysgol yn nodi meddyliau’r plentyn am hunan-niweidio a hunanladdiad. Dylai hyn fod wedi codi pryder sylweddol i nodi bod y nyrs ysgol angen cynnal trafodaeth bellach gyda’r arweinydd bugeiliol yn yr ysgol a llywio asesiad ynglŷn â pha un a fyddai angen gweld y plentyn.
- Pe bai’r hysbysiad mabwysiadu a’r newid enw wedi’i gofnodi’n gywir yna byddai’r nyrs ysgol wedi gallu dod o hyd i’r nodiadau cywir a phe bai wedi derbyn y wybodaeth berthnasol, yna byddai yna ymateb gwahanol gan y nyrs ysgol gan y byddai wedi bod yn fwy ymwybodol o Brofiadau Gwael y Plentyn yn Ystod Plentyndod.
- Roedd yna gyfle wedi’i golli i’r nyrs ysgol a’r gefnogaeth fugeiliol yn yr ysgol i gysylltu a nodi beth oedd a beth oedd ddim wedi’i wneud o ran atgyfeiriadau i wasanaethau.
- Er nad oedd yr ysgol yn ymwybodol o rai elfennau o fywyd y plentyn, roeddent yn ymwybodol o’r hunan-niweidio, sôn am feddyliau hunanladdiad a materion cwestiynu rhyw. Roedd yna gyfle i ystyried pa un a oedd hwn yn fater diogelu ac er ei fod yn cael ei gydnabod nad oedd yn cael ei asesu fel mater diogelu ar y pryd, dylai fod yna gofnod o’r penderfyniad i beidio llunio adroddiad diogelu a pham.
- Hefyd, teimlwyd fod gan yr ysgol ddigon o wybodaeth i allu cyngori’r rhieni i ofyn am gefnogaeth i gefnogi’r plentyn o’r Awdurdod Lleol, neu i gael caniatâd y rhieni i wneud atgyfeiriad ar eu rhan.

Anghenion plentyn sy’n cwestiynu eu rhywedd.

Yn 2019 roedd Tîm Diogelu Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant Heddlu Gogledd Cymru wedi ymweld â’r plentyn i drafod pryderon bod y plentyn wedi lawrlwytho cynnwys amhriodol oddi ar y rhynggrwyd yn gynharach y flwyddyn honno. Yn ystod yr ymweliad, roedd y plentyn a’r rhieni yn rhannu gwybodaeth am y digwyddiadau diweddar ym mywyd y plentyn a darparwyd cyngor diogelu ychwanegol. Roedd y rhieni yn ymddangos yn rheoli’r sefyllfa ac oherwydd bod swyddogion wedi eu

hysbysu bod y plentyn wedi'i atgyfeirio at CAMHS, nid oedd adroddiad diogelu wedi'i rannu gan yr heddlu gyda gwasanaethau plant.

Roedd y plentyn wedi cysylltu â'r ysgol i siarad am deimladau ynglŷn â chwestiynu rhyw ac roedd hwn yn ymddangos yn un o'r materion y tu ôl i'r hunan-niweidio.

Nid yw'r ysgol yn derbyn unrhyw arweiniad mewn perthynas ag ymateb i ddysgwyr sy'n wynebu materion LHDTTC+. Nid oes yna unrhyw ganllawiau Sirol, Rhanbarthol na Chenedlaethol ar gael.

Unwaith y daeth yn amlwg nad oedd yna atgyfeiriad wedi'i wneud i CAMHS, roedd yr ysgol wedi atgyfeirio. Nid oedd yn bosibl cadarnhau pam nad oedd yr atgyfeiriad wedi cyrraedd CAMHS am 5 wythnos arall ar ôl y dyddiad y cafodd ei atgyfeirio.

Mae CAMHS yn gallu naill ai derbyn atgyfeiriadau drwy e-bost neu atgyfeiriadau papur drwy'r post. Y dewis a ffefrir yw drwy e-bost. Mae atgyfeirwyr sy'n anfon atgyfeiriadau drwy ebost yn derbyn cydnabyddiaeth electronig am yr atgyfeiriad. Mae pob atgyfeiriad yn cael ei stampio gyda dyddiad pan maent yn cael eu derbyn a'u sgrinio gan ymarferydd Pwynt Mynediad Sengl CAMHS.

Mae rhai asiantaethau yn dal i atgyfeirio drwy'r post ac roedd yr atgyfeiriad CAMHS mewn perthynas â'r plentyn hwn wedi'i anfon yn y post. Nid yw atgyfeirwyr yn derbyn unrhyw gadarnhad bod eu hatgyfeiriad wedi'i dderbyn drwy'r post.

Unwaith y bydd yr atgyfeiriad yn cael ei sgrinio, mae'r gwasanaeth CAMHS yn cysylltu â'r plentyn a'r rhiant ynglŷn ag apwyntiadau. Mae'r gwasanaeth CAMHS yn cysylltu â'r atgyfeiriwr ar ôl derbyn yr atgyfeiriad os na fydd yr atgyfeiriad yn cael ei dderbyn yn unig. Mae'n rhaid tybio nad oeddent wedi clywed gan CAMHS bod yr atgyfeiriad wedi'i dderbyn a chysylltwyd â'r plentyn a'r rhiant.

Os byddai'r ysgol yn dymuno canfod am yr ymateb gan CAMHS gallent fod wedi gwneud cyswllt uniongyrchol gyda CAMHS gan mai nhw oedd yr asiantaeth sy'n atgyfeirio.

Fodd bynnag, byddai'n rhesymol yn yr amgylchiadau, o ystyried yr oedi a brofwyd eisoes wrth wneud yr atgyfeiriad CAMHS y gallai'r ysgol fod yn rhagweithiol wrth wirio bod yr atgyfeiriad wedi'i dderbyn. Nid oes yna unrhyw gofnod o hyn yn digwydd.

Am gyfnod o 2 fis, nid oedd unrhyw asiantaeth wedi cysylltu â gwasanaeth CAMHS i sefydlu pa un a wnaed atgyfeiriad, ac nid oedd yr un asiantaeth wedi cadarnhau'r cyfeiriad ar gyfer mynediad i gwrsela na beth oedd y ddarpariaeth yn ei olygu. Ar ôl 2 fis roedd y nyrs ysgol wedi sylweddoli na wnaed yr atgyfeiriad CAMHS ac roedd wedi cynghori'r ysgol i wneud yr atgyfeiriad a gwnaed hynny.

Roedd y plentyn wedi cael cynnig Apwyntiad Dewis yn CAMHS. Roedd y plentyn a'r fam wedi mynychu'r apwyntiad a theimlwyd bod y rhieni yn gefnogol, ac roedd y plentyn yn gyfforddus gyda'r fam yn ystod yr asesiad. Yn y "Pwynt Dewis" ar ddiwedd yr apwyntiad, cafodd y plentyn gynnig derbyn gwasanaeth gan CAMHS neu i gael ei atgyfeirio i Inspire.

Mae Inspire yn Wasanaeth Ieuentid i bobl ifanc sy'n hunan-niweidio, mae ganddynt grŵp ieuentid ynghlwm sydd ag is-grŵp Pride sy'n cyfarfod yn rheolaidd. Mae Inspire yn cael ei ddarparu mewn partneriaeth gydag Awdurdod Lleol Sir y Fflint a Wrecsam.

Roedd y plentyn wedi dewis cael mynediad i'r Gwasanaeth Inspire. Mae gan y Gwasanaeth Inspire restr aros ac ychwanegwyd enw'r plentyn.

Roedd y plentyn wedi derbyn gwybodaeth ynglŷn â pha wasanaethau i gael mynediad iddynt tra'n aros a beth i'w wneud os oedd angen cefnogaeth cyn i'r gwasanaeth ddechrau. Roedd yna restr aros o 6 mis ac nid oedd y plentyn a'r rhieni yn ymwybodol o hyn ar y pryd. Pan oedd y gwasanaeth ar gael, roedd y Gwasanaeth Inspire wedi cysylltu â'r rhieni oedd wedi dweud nad oedd angen y gwasanaeth mwyach.

Pwyntiau dysgu

- Os byddai yna ganllawiau ar faterion LHDTTC+ mae'n bosibl y byddai'r ysgol wedi ymateb yn wahanol.
- Mae adolygiad Heddlu Gogledd Cymru yn adlewyrchu yn seiliedig ar eu hymateb i'r plentyn yn 2019, er nad oedd yna unrhyw bryderon bod y plentyn mewn risg sylweddol o niwed, byddai cyflwyno adroddiad diogelu i'r gwasanaethau cymdeithasol yn ymwneud â defnydd amheus y plentyn o'r rhyngwyd wedi sicrhau bod pryderon ehangach wedi eu rhannu.
- Os byddai'r ysgol wedi dechrau'r llwybr a gymeradwywyd i CAMHS yn gynt yna mae'n bosibl y byddai'r plentyn wedi'i weld yn gynt.
- Roedd y staff ysgol yn cymryd bod yr atgyfeiriad ar bapur wedi'i anfon, ei dderbyn ac wedi ymateb iddo. Mae'n ymddangos na fu unrhyw ymdrechion i wirio bod yr atgyfeiriad wedi'i dderbyn gan CAMHS.
- Os byddai'r ysgol wedi anfon yr atgyfeiriad drwy e-bost, byddent wedi derbyn cadarnhad ar unwaith.
- Os byddai'r gwasanaeth Inspire wedi siarad yn uniongyrchol gyda'r plentyn mae'n bosibl y byddent wedi derbyn ymateb gwahanol i'r ymateb a dderbyniwyd gan y rhiant.

Anghenion plentyn sydd o bosibl yn cael ei fwlio.

Mae yna wybodaeth wedi'i rhannu sy'n awgrymu bod y plentyn wedi bod yn destun bwlio gan gyfoedion. Roedd y rhieni a'r ysgol yn ymwybodol o fath penodol o fwlio, er nad oedd yr ysgol yn ymwybodol o unrhyw faterion gyda chyfoedion nes i'r plentyn gael ei weld gan CAMHS. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod yna

ddealltwriaeth glir o natur bwlio. Roedd yr ysgol yn teimlo bod y bwlio oherwydd y materion cwestiynu rhyw ac roedd y rhieni yn credu ei fod mewn perthynas â chael ei fabwysiadu. Roedd y cyfryngau cymdeithasol yn ymddangos yn y bwlio a theimlwyd bod yna fwlio yn yr ysgol a'r tu allan.

Mae'r ysgol yn hyderus eu bod wedi rheoli'r sefyllfa yn hyderus ac er bod eu polisïau cefnogi ymddygiad a bwlio angen eu diweddarau, maent yn teimlo bod eu hymateb yn gefnogol. Maent yn credu eu bod bob amser yn wylidwrus; roeddent yn mynd i'r afael â materion ymhlith dysgwyr ac roeddent yn caniatáu i'r plentyn symud grŵp tiwtor. Roedd yr arweinwyr bugeiliol yn gwneud amser i siarad gyda'r plentyn.

Roedd y ffactor o ran sut oedd yr ysgol yn rheoli bwlio yn gyffredinol wedi'i godi fel rhan o'r adolygiad a'r drefn gwneud penderfyniadau yn ymwneud â gwaharddiadau tymor penodol.

Mae'r ysgol yn teimlo bod holl waharddiadau yn unol â'r canllawiau o fewn Adran 1.7 Canllawiau Cenedlaethol Gwahardd o'r Ysgol a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2019 gan Addysg Cymru:

1.7 Hyd gwaharddiadau tymor penodol:

1.7.1 Mae'r rheoliadau'n caniatáu i benaethiaid wahardd dysgwr am un neu fwy o gyfnodau penodol heb fod yn fwy na 45 diwrnod ysgol mewn blwyddyn ysgol. Fodd bynnag, dylai gwaharddiadau unigol fod am y cyfnod byrraf posibl, gan gymryd i ystyriaeth bod gwaharddiadau o fwy na diwrnod neu ddau yn ei gwneud yn fwy anodd i'r dysgwr ailintreiddio yn yr ysgol. Mae tystiolaeth o arolygon yn awgrymu bod rhwng 1 a 3 diwrnod yn aml yn ddigon i gyflawni'r buddion o waharddiad heb gael effaith niweidiol ar addysg.

Nodwyd bod yna bosiblwydd bod yna ddiffyg dealltwriaeth amlasiantaeth am faint o fwlio sydd o fewn yr ardal.

Roedd yr ysgol yn nodi achosion ynysig o ddigwyddiadau bwlio y tu allan i'r ysgol ac yn arbennig ar y cyfryngau cymdeithasol a rhoddwyd cyngor. Ar y pryd roedd pob achos o fwlio yn cael ei gofnodi ar system Cofnodi Ymddygiad Mewnol. Ers yr amser hwn, mae system newydd wedi'i ddatblygu i gofnodi bwlio sy'n arwain at ddull mwy strategol.

Hefyd nodwyd na roddwyd gwybod i'r heddlu am yr achosion o fwlio yr oedd yr ysgol yn ymwybodol ohonynt. Yn ystod cyfnod yr adolygiad, ni roddwyd gwybod am unrhyw achosion o fwlio i heddwys cymunedol yr ysgol drwy dudalen rhoi gwybod am ddigwyddiad ar y wefan School Beat. Roedd yr heddlu yn nodi nad oedd yn ymddangos bod yna broblem o fwlio o fewn yr ysgol yn ystod yr adolygiad hwn. Mae'r cysyniad yn groes i ganfyddiadau ymchwil Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgol (SHRN) wnaeth ddod i'r casgliad ym mis Mai 2020 roedd 99.8% o ddisgyblion yr ysgol wedi cwblhau holiadur a 39% yn dweud eu bod wedi cael eu bwlio yn y ddau fis diwethaf. Roedd pwysau ac LHDTG+ yn faterion a nodwyd fel rhesymau

cyffredin dros y bwlio. Mae Cynllun Iechyd a Lles SHRN yr Awdurdod Lleol 2019 - 2024 yn amlinellu'r cynllun i leihau bwlio ac i gydweithio gyda'r heddlu i atal ac ymateb i achosion o fwlio.

Pwyntiau dysgu

- Mae'n ymddangos bod yna angen hybu ymateb amlasiantaeth i fwlio, mewn perthynas ag achosion penodol ac mewn perthynas â datblygiad a gweithrediad cynlluniau gweithredu ysgol ac Awdurdod Lleol yn dilyn yr ymchwil SHRN. Byddai hyn yn cefnogi asiantaethau i gael barn mwy cyfannol yn ymwneud â phryderon diogelu ehangach.
- Yn ystod y cyfnod hwn o'r adolygiad, tra bod gwaharddiadau tymor penodol yn ymddangos yn cydymffurfio â'r Canllawiau Cenedlaethol a pholisi ymddygiad yr ysgol, mae'r Canllawiau Cenedlaethol yn awgrymu y dylai'r penderfyniad i wahardd gynnwys ystyriaeth o pa un a fyddai'r digwyddiad wedi'i bryfocio e.e. drwy fwlio neu drwy aflonyddu rhywiol. Dylai pob digwyddiad ystyried a yw allan o gymeriad i'r plentyn a phawb sy'n cymryd rhan, a all roi cyfle i fod yn fwy chwilfrydig o amgylch natur yr anghytundeb ac neu'r digwyddiad.

Arfer da a nodwyd mewn dadansoddiad asiantaeth

- Roedd y plentyn wedi'i weld gan CAMHS o fewn 28 diwrnod o dderbyn atgyfeiriad.
- Roedd asesiad CAMHS yn un cydweithredol a rhoddwyd gwybod i'r Teulu, Atgyfeiriwr a'r Meddyg Teulu am y canlyniad.
- Roedd y gwasanaeth cefnogi Mabwysiadu wedi cyfarfod y fam fiolegol a'r rhieni ynglŷn ag ymdrechion i gysylltu â'r plentyn gan y fam fiolegol.
- Roedd Addysg Wrecsam yn teimlo y dilynwyd y prosesau cywir i gyd yn unol â'r broses ar gyfer atgyfeiriadau i'r Gwasanaeth Inspire bryd hynny ac roedd gwybodaeth arwyddbostio wedi'i darparu i'r person ifanc a'r rhieni.
- Roedd y plentyn, rhieni a'r atgyfeiriwr wedi eu hysbysu drwy lythyr bod enw'r plentyn wedi'i gynnwys ar y rhestr aros Inspire hefyd yn nodi os oedd ganddynt unrhyw gwestiynau neu bryderon i ffonio Inspire. Roedd awgrymiadau ychwanegol ar gyfer cefnogaeth hefyd wedi eu rhannu gyda'r plentyn a'r rhieni os byddai angen cefnogaeth cyn yr apwyntiad.
- Roedd WAST yn dilyn protocol PRUDiC ac yn cysylltu'n briodol â'r Heddlu a'r ysbyty i reoli'r digwyddiad.
- Mae BIPBC yn gweithio i benodi Uwch Ymarferwyr Iechyd Meddwl i gefnogi llwybr Cymorth Buan/CAMHS i Wasanaethau Gofal Sylfaenol/Meddyg Teulu yn Wrecsam a Sir y Fflint. Gweithio mewn ffyrdd mwy integredig i ddatblygu'r gallu a gwytnwch a chynnig hyfforddiant ac ymgynghori Hyd yma, mae 4 ymarferydd yn eu swydd ac yn weithgar mewn meddygfeydd yn y Dwyrain.

Llais y plentyn

I adlewyrchu ar lais y plentyn, cafodd cyfarfod ei gynnal gyda grŵp o bobl ifanc a ystyriwyd bod eu hamgylchiadau yn debyg i amgylchiadau'r plentyn a meddylir y gall

hyn o bosibl roi cipolwg ar fywyd y plentyn. Cafodd y cyfarfod hwn ei hwyluso rhwng adolygwr a pherson ifanc sy'n defnyddio'r Gwasanaeth Inspire ar hyn o bryd.

Roedd 12 o bobl ifanc yn hapus i eistedd a thrafod amrywiaeth o faterion ynglŷn â'u bywydau. Roedd y 12 yn hapus i rannu sut yr oeddent yn teimlo naill ai yn bobl ifanc wedi eu herio'n emosiynol neu'n bryderus yn gymdeithasol, rhai ohonynt hefyd yn rhan o'r gymuned LHDTC+.

Y ddau brif fater oedd ynysu a bwlio.

- Ynysu, teimlo'n unig ac mai chi yw'r unig un sydd â'r teimladau hyn.
- Bwlio - yn bennaf galw enwau, naill ai yn ansensitif, homoffobig, neu drawsffobig ac weithiau'r tri i gyd.

Roedd y bobl ifanc yn rhannu gwerth y gwasanaeth Inspire ac o bosibl beth fyddai'r plentyn wedi gallu cael mynediad iddo.

Inspire a Chlwb Ieuentid Inspire.

- Roedd y bobl ifanc i gyd yn teimlo bod y cymorth gorau yr oeddent wedi'i dderbyn gan Inspire.
- Mae staff Inspire yn siarad gyda chi fel pobl ac nid ydynt yn ysgrifennu popeth rydych yn ei ddweud ac yn ei ddefnyddio fel rhan o asesiad.
- Mae'r clwb ieuentid yn fan diogel i ddod yno gan ei fod drwy wahoddiad yn unig. Felly, rydych yn gwybod y bydd pawb yn garedig ac yn sensitif. Nid ydych yn cael eich beirniadu ac nid oes unrhyw un yn chwerthin arnoch gan fod pawb yn dod o le tebyg.
- Gallwch uniaethu â phobl ifanc eraill ac rydych yn eu gweld bob wythnos ac yn cwrdd â nhw y tu allan i'r clwb ieuentid.
- Mae teithiau a gweithgareddau yn cael eu trefnu fel bod pobl oedd yn bryderus yn gymdeithasol yn gallu mynd allan, rhoi cynnig ar bethau newydd a theimlo eu byd yn cael eu cefnogi.
- Mae'r staff yn anhygoel; maent yn gwybod sut i helpu.
- Mae'n le i gael hwyl ac ymlacio.

Casgliadau

Roedd ymddygiad y plentyn, hunan-niweidio, lleisio meddyliau hunanladdiad ac yn ymddwyn yn groes i'r arfer yn ymladd gyda chyfoedion yn ddangosydd bod y plentyn wedi bod yn cael anawsterau.

Roedd gan sawl gweithiwr proffesiynol rywfaint o wybodaeth am fywyd y plentyn, ond nid oedd yn ymddangos fod gan unrhyw un y darlun llawn.

Roedd y rhieni wedi bod yn gofyn am gefnogaeth ac yn trafod digwyddiadau gyda sawl gweithiwr proffesiynol.

Roedd y gweithwyr proffesiynol oedd yn gweithio gyda'r teulu yn fodlon bod y gefnogaeth gywir yn cael ei chynnig.

Roedd yna Gynllun Cefnogi Mabwysiadu ar waith adeg y Mabwysiadu, fodd bynnag, nid oedd y cynllun yn cael ei adolygu yn sgil materion mwy diweddar.

Er nad oedd gan unrhyw un fandad penodol i wneud ymholiadau pa un a gysylltwyd â'r atgyfeiriadau a'r gwasanaethau cywir, a gallai unrhyw un o'r asiantaethau fod wedi cynghori rhieni i ofyn am adolygiad o'r Cynllun Cefnogi Mabwysiadu neu gael mynediad i gefnogaeth statudol neu ataliol arall i'r plentyn o'r Awdurdod Lleol.

Roedd yr asiantaethau i gyd yn ymwybodol bod y plentyn yn hunan-niweidio, yn sôn am feddyliau hunanladdiad a materion cwestiynu rhyw. Roedd yna gyfle i ystyried pa un a oedd hwn yn fater diogelu ac er ei fod yn cael ei gydnabod nad oedd yn cael ei asesu fel mater diogelu ar y pryd, dylai fod yna gofnod o'r penderfyniad i beidio llunio adroddiad diogelu a pham.

Hefyd, teimlwyd fod gan yr asiantaethau ddigon o wybodaeth i allu cynghori'r rhieni i ofyn am gefnogaeth i gefnogi'r plentyn o'r Awdurdod Lleol, neu i gael caniatâd y rhieni i wneud atgyfeiriad ar eu rhan.

Roedd yn ymddangos bod yna chwe maes ble gellir ymarfer mwy o chwilfrydedd proffesiynol.

- 1) Pam bod y plentyn hwn yn ymddwyn yn wahanol i'r arfer?
- 2) Beth oedd effaith cyfnod clo Covid-19 ar y plentyn a'r asiantaethau?
- 3) Pa effaith oedd y cyswllt gyda'r teulu biolegol a thrafodaethau o amgylch brodyr a chwiorydd yn ei gael ar les emosiynol y plentyn?
- 4) Oedd y rhieni yn ymwybodol y gallent gysylltu â'r Awdurdod Lleol am adolygiad o'r Cynllun Cefnogi Mabwysiadu neu Asesiad Gofal a Chefnogaeth?
- 5) Pa mor effeithiol oedd y gefnogaeth oedd y plentyn yn ei dderbyn ar les emosiynol y plentyn?
- 6) Pa wybodaeth oedd gan asiantaethau eraill am y plentyn ac anghenion y plentyn?

Llais y plentyn

Dywedodd yr ysgol fod y plentyn wedi siarad yn gyson gyda'r ysgol am deimladau a meddyliau yn arbennig yn fuan o fewn amserlen yr adolygiad hwn. Roedd yr ysgol yn y sefyllfa ddelfrydol i ymgysylltu'n llawn â'r plentyn, clywed llais y plentyn a gweithredu ar ran y plentyn. Wrth i amser fynd ymlaen, byddai'r ysgol mewn sefyllfa dda i wrando a rhoi cyfle i'r plentyn leisio eu meddyliau a'u teimladau gyda meddwl chwilfrydig ac nid cymryd llais y rhieni i ystyriaeth yn unig.

Nodwyd nad oedd llawer o asiantaethau wedi siarad yn uniongyrchol gyda'r plentyn, ac roedd pobl ifanc a ymgynghorwyd â nhw yn ystod yr adolygiad yn cael eu hystyried mewn amgylchiadau tebyg i'r plentyn yn dweud mai'r ddau bryder mwyaf cyffredin ganddynt oedd ynysiad a bwlio.

Gwella Systemau ac Ymarfer

Er mwyn hybu'r dysgu o'r achos hwn, roedd yr adolygiad yn nodi'r camau canlynol ar gyfer y Bwrdd a'r asiantaethau sy'n aelodau a rhagwelir deilliannau gwella:

Newidiadau wedi eu gwneud eisoes fel y nodwyd yn y dadansoddiad asiantaeth.

- Mae ymgynghori yn digwydd ynglŷn â Chanllawiau Cenedlaethol mewn perthynas â hysbysiadau o Orchmynion Mabwysiadu o fewn iechyd a chadw'r Rhif Iechyd Gwladol.
- Mae'r Nyrs Plant Sy'n Derbyngofal nawr yn mynychu holl gyfarfodydd cyn-mabwysiadu i gasglu gwybodaeth a'i rhannu gyda'r nyrs ysgol.
- Mae cofnod y nyrs ysgol o dderbyn atgyfeiriad a chofnodi cynlluniau triniaeth dilynol wedi cael eu hadolygu.
- Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru wedi penodi cydlynnydd gwaith Siwrnai Bywyd.
- Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru wedi penodi Ymgynghorydd Gwasanaeth Cymorth Mabwysiadu.
- Mae Canllawiau Arfer Da Cenedlaethol Cymru Gyfan wedi eu cyhoeddi yn 2021 fel a ganlyn: Cyswllt; Gweithio gyda Rhieni Biolegol; Trosglwyddo a Chymorth Buan a Chymorth Mabwysiadu.
- Mae Canllawiau Arfer Da NAS ar Geisiadau Gofal Maeth wedi eu llunio a chyhoeddir ym mis Hydref/Tachwedd 2022.
- Mae'r awdurdod lleol wedi adolygu arferion i sicrhau bod Gweithwyr Cymdeithasol yn gweld y plentyn yn ogystal â rhieni ac mae hyn yn cael ei gofnodi'n glir, yn arbennig os nad yw rhieni yn cydsynio.
- Roedd adolygiad yr heddlu yn nodi'r angen i hysbysu SSD am unrhyw ymweliad â phlentyn.
- Mae llythyr rhestr aros gwasanaeth leuenctid Inspire nawr yn cynnwys amser aros posibl.
- Mae'r gweithwyr leuenctid Inspire nawr yn siarad yn uniongyrchol gyda'r plentyn ynglŷn â'u hapwyntiadau.
- Mae Addysg wedi datblygu system electronig i gofnodi a rhannu gwybodaeth am fwlio.
- Mae'r ysgol wedi cyflwyno system cefnogi electronig newydd ar gyfer holl Bryderon Diogelu.

Argymhellion

Argymhelliad	Asiantaethau arweiniol
Sesiynau ymwybyddiaeth i gael eu trefnu i hybu dealltwriaeth ranbarthol o fframwaith cymorth mabwysiadu a chanllawiau arfer da.	GMGC
Datblygu canllawiau ynglŷn â chysylltu â mabwysiadwyr pan fydd brodyr a chwiorydd angen eu lleoli.	NAS
Ysgolion Uwchradd i ddarparu tystiolaeth i'r Prif Swyddog Addysg ynglŷn â dosbarthu a gweithredu llwybr hunan-niweidio CAMHS.	Ysgol / Addysg
Adolygu dogfennaeth a phroses atgyfeirio o'r ysgol	

i'r nyrs ysgol.	Addysg BIPBC
Gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â datblygu canllawiau cenedlaethol LHDTTC+ mewn ysgolion.	Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru
Codi ymwybyddiaeth ynglŷn â phwy sy'n gallu atgyfeirio at CAMHS a'r llwybr a ffeirir ar gyfer derbyn a chydabod atgyfeiriadau.	BIPBC
Hybu dealltwriaeth amlasiantaeth ac uwchgyfeirio data Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgol.	Grwpiau Cyflawni Lleol BDPGC
Datblygu ymateb canllawiau amlasiantaeth i gefnogi iechyd a lles emosiynol plant sy'n cael eu bwlio.	Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru
Sicrwydd bod polisiau'r ysgol ynglŷn â bwlio a rheoli ymddygiad wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau.	Addysg
Adolygu'r broses rhannu gwybodaeth rhwng y nyrs ysgol ac unrhyw "Ffeil Iechyd Arbennig"	BIPBC

Adolygwr 1

Datganiad annibyniaeth o'r achos
Datganiad o gymhwyster i ddibenion sicrhau ansawdd

Rwy'n cyflwyno'r datganiad canlynol cyn cyfrannu at yr adolygiad dysgu hwn:

- Nid wyf wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn na'r teulu, ac nid wyf wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos.
- Nid wyf wedi bod yn rheolwr atebol uniongyrchol ar yr ymarferwyr dan sylw.
- Mae gennyf y cymwysterau cydnabyddedig priodol, gwybodaeth a phrofiad a hyfforddiant i ymgymryd â'r adolygiad.
- Cafodd yr adolygiad ei gynnal yn briodol ac roedd y gwaith dadansoddi a gwerthuso mewn perthynas â'r materion yn y Cylch Gorchwyl yn drwyadl.

Adolygwr 1
(Llofnod)

Valerie Ann Owen

Enw (print bras): Val Owen
Dyddiad: 09/01/2023

Adolygwr 2

Datganiad annibyniaeth o'r achos
Datganiad o gymhwyster i ddibenion sicrhau ansawdd

Rwy'n cyflwyno'r datganiad canlynol cyn cyfrannu at yr adolygiad dysgu hwn:

- Nid wyf wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn na'r teulu, ac nid wyf wedi rhoi cyngor proffesiynol ar yr achos.
- Nid wyf wedi bod yn rheolwr atebol uniongyrchol ar yr ymarferwyr dan sylw.
- Mae gennyf y cymwysterau cydnabyddedig priodol, gwybodaeth a phrofiad a hyfforddiant i ymgymryd â'r adolygiad.
- Cafodd yr adolygiad ei gynnal yn briodol ac roedd y gwaith dadansoddi a gwerthuso mewn perthynas â'r materion yn y Cylch Gorchwyl yn drwyadl.

Adolygwr 2
(Llofnod)

AE Mansell

Enw (print bras): Angela Mansell
Dyddiad: 09/01/2023

Cadeirydd y Panel Adolygu

(Llofnod)

M. Denwood

Enw (print bras):

Michelle Denwood

Dyddiad: 09/01/2023
